

Annwyl Gadeirydd/Clerc,

Cynhadledd Arfer Arloesol & Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2019

Rwyf yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Un Llais Cymru yn cynnal ein trydydd Cynhadledd Arfer Arloesol & Gwobrau Cenedlaethol ar **ddydd Iau, 28^{ain} Mawrth 2019** yn Adeilad Hafod a Hendre, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Llanfair ym Muallt, LD2 3SY.

Mae'r gwobrau hyn yn gyfle i'ch cyngor arddangos y gwasanaethau a ddarpara i'w gymuned ac mae'n gyfle i gynghorwyr, clerod a staff dderbyn y gydnabyddiaeth maen nhw'n ei haeddu.

Defnyddir y cynigion i greu corff tystiolaeth a gyflwynir i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Unedol, y Trydydd Sector a phartneriaid allweddol eraill i amlygu'r gwaith da a wneir gan gynghorau lleol yn eu cymunedau ledled Cymru a sut allant gefnogi gwaith y sector cynghorau lleol yn y dyfodol.

Fe welwch yn atodedig lyfryn yn rhestru'r categorïau gwobrau a manylion am sut allwch enwebu eich cyngor ar gyfer y gwobrau pwysig hyn ynghyd â ffurflen gais.

Bydd panel annibynnol yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cynrychioliadol cenedlaethol yn gyfrifol am y gwaith o feirniadu'r cynigion. Fe fydd rhestr fer o dri enwebiad ymhob un o'r deg categori. Gwahoddir pob un o'r cynghorau a roddir ar y rhestr fer ar gyfer pob categori i gymryd rhan mewn arddangos menter eu Cyngorau.

Bydd disgwyl i'r tri chynnig a enwebir ymhob categori roi cyflwyniad 10 munud (uchafswm) fel rhan o gyfres o sesiynau arfer arloesol, a gynhelir yn ystod cyfres o sesiynau gweithdy yn y bore.

Cynhelir y Seremoni Wobrwyo ar brynhawn y Gynhadledd pan fydd yr enillwyr a'r ddau ail orau yn derbyn eu gwobrau a'u tystysgrifau. Bydd Un Llais Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiad yn dilyn y Gynhadledd, fydd yn cael ei rannu â chynghorau lleol a mudiadau budd-ddeiliaid ledled Cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer cynigion yw dydd Gwener 25 Ionawr 2019. Cynhelir panel beirniadu ar ôl y dyddiad hwn a chaiff y tri chynig a roddir ar y rhestr fer ar gyfer pob categori wybod yn hwyrach ym mis Chwefror 2019 er mwyn rhoi amser i baratoi ar gyfer y cyflwyniad 10 munud (uchafswm) cyn y Gynhadledd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am Gynllun Gwobrau 2019, mae croeso ichi gysylltu â Shan Bowden, Swyddog Datblygu'r De trwy e-bost yn shan.bowden@unllaiscymru.org.uk

Mawr obeithiaf y byddwch yn enwebu eich cyngor ar gyfer gwobr/au a helpu Un Llais Cymru i amlygu a hyrwyddo'r arferion arloesol sy'n digwydd mewn cymunedau lleol ar hyd a lled Cymru.

Yn gywir

Cyng Mike Cuddy, Cadeirydd, Un Llais Cymru